Rhifyn 3

Cyfres o Adroddiadau Ymchwil i Iechyd Gwledig

Adolygiad o Lenyddiaeth: Cynhwysiant Cymdeithasol mewn Ardaloedd Gwledig

irh Institute of Rural Health

Health Challenge Wales

Her Iechyd Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Paratowyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan:
Trish Buchan
Pat Davies

Cyfres o Ymchwiliadau i Iechyd Gwledig

1. Adolygiad o lenyddiaeth: materion mesur iechyd gwledig
2. Adolygiad o lenyddiaeth: modelau gwasanaeth a mynediad i iechyd gwledig
3. Adolygiad o lenyddiaeth: cynhwysiant cymdeithasol ac iechyd gwledig
4. Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig: prif ganfyddiadau ac argymhellion
5. Cyflwr iechyd a lles gwledig yng Nghymru
6. Adolygu polisi iechyd gwledig
7. Defnyddio asesu'r effaith ar iechyd yng nghefn gwlad Cymru
8. Materion iechyd gwledig cyfoes: gwybodaeth o Gymru a thu hwnt

Ymchwilwyr: Trish Buchan (Ymchwilydd)
Jenny Deaville (Rheolwraig Ymchwil)

Sefydliad Iechyd Gwledig
Gregynog
Y Drenewydd
Powys
SY16 3PW
www.rural-health.ac.uk

Rheolwr y Prosiect: Kaori Onoda

Cangen Ymchwil a Gwerthuso
Is-adran Hybu Iechyd
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
www.cmo.cymru.gov.uk

© Hawlfraint y Goron Gwanwyn 2005
ISBN 0 7504 3785 5
Safbwyntiau'r awduron a fynegwyd yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn cyfateb i rai Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynnwys

Cydnabyddiaeth		2
Crynodeb gweithredol		3
1.	**Cyflwyniad a chefndir y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig**	**4**
1.1	Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig (RHIP)	4
1.2	Adolygiadau o lenyddiaeth iechyd a lles gwledig	5
2.	**Dulliau**	**6**
2.1	Gweithredu dull Bwletinau Tystiolaeth Iechyd Cymru	6
2.2	Chwilio drwy lenyddiaeth yn systematig	8
2.3	Meini prawf dewis ac arfarnu papurau	9
3.	**Arfarnu papurau ymchwil**	**10**
3.1	Ymyriadau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig	10
3.2	Astudiaethau gyda goblygiadau ar bolisi cynhwysiant cymdeithasol a chynllunio rhanbarthol	12
4.	**Trafodaeth**	**18**
4.1	Ystyriaethau methodolegol	18
4.2	Themâu sy'n dod i'r amlwg	18
Cyfeiriadau		**20**
Atodiadau		
Atodiad 1	Aelodaeth Grŵp Gwybodaeth Iechyd Gwledig Cymru Gyfan	21
Atodiad 2	Tîm arfarnu yn y Gweithdy a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2002	22
Atodiad 3	Rhestr o'r papurau a adolygwyd	
Atodiad 4	Ffurflen arfarnu critigol: cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig	25

Cydnabyddiaeth

Dymuna awduron yr adolygiad o lenyddiaeth gydnabod cymorth y bobl ganlynol gyda'r gwaith o adolygu papurau:

Grŵp llywio yr adolygiad o lenyddiaeth (is-grŵp Grŵp Gwybodaeth Iechyd Gwledig Cymru Gyfan), yr Athro Joyce Kenkre, Prifysgol Morgannwg a Simant Westley o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

Y tîm adolygu a gymerodd ran yn y gweithdy yn Neuadd Gregynog ar 16 Ebrill 2002.

Allyson Lipp, Prifysgol Morgannwg am hyfforddiant Bwletin Tystiolaeth Iechyd.

Alison Weightman, Uned Gefnogi Tystiolaeth Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, am ei chyngor ar hierarchaeth, graddio tystiolaeth a defnyddio'r system STOX.

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig yw'r trydydd mewn cyfres o dri adolygiad o lenyddiaeth a gynhelir fel rhan o'r Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig (RHIP). Comisiynwyd yr RHIP gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau a rhaglenni seiliedig ar wybodaeth ym maes iechyd a lles yng nghefn gwlad Cymru.

Dulliau

Cynhaliwyd chwiliad systematig o lenyddiaeth gan ddefnyddio Canllawiau Bwletin Tystiolaeth Iechyd Cymru a defnyddio'r geiriau allweddol: *rural* neu *countryside* a *social inclusion* neu *participation* a'r geiriau canlynol yn eu tro: *rural models* of *social inclusion*, *evaluation* of *social inclusion models*, *innovative practice*, *equal opportunities*, *community*, *young*, *teenagers*, *low income*, *ethnic minorities*, *lone parents*, *disabled*, *elderly*, *mentally ill*, *unemployed*, *carers*, *parents* a *chronically sick*. Cyfyngwyd y chwilio i bapurau Saesneg o'r DU a gyhoeddwyd rhwng 1999 a 2002. Yn ogystal, cysylltwyd ag aelodau Grŵp Gwybodaeth Iechyd Gwledig Cymru Gyfan (AWRHIG) i weld a oedd unrhyw bapurau ymchwil perthnasol a llenyddiaeth sy'n
crybwyll y mater yn eu maes arbenigol nhw.

Cafodd pob papur ei adolygu'n annibynnol gan o leiaf ddau unigolyn a'i eithrio neu ei gynnwys ar sail sgrinio trwy ffurflen safonol a thrwy drafod safbwyntiau gwahanol. Cafodd 94 o bapurau eu nodi yn y chwiliad cyntaf, gyda 15 ohonynt yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad.

Defnyddiwyd methodoleg STOX i ddosbarthu astudiaethau yn yr adolygiad, gan fod y dull yn cydnabod cyfraniad astudiaethau arsylwi wedi'u rheoli o ansawdd uchel ac yn cyflwyno tystiolaeth i gefnogi hynny. Mae hefyd yn cydnabod y cyfraniad mae arolygon ac astudiaethau achos yn ei wneud i greu damcaniaethau a'r defnydd ohonynt fel sail i raglenni ymchwil, sy'n un o brif amcanion yr RHIP.

Canfyddiadau a ddaw i'r golwg

Roedd y broses adolygu yn nodi bod diffyg tystiolaeth ymchwil gadarn i hysbysu materion cynhwysiant cymdeithasol mewn iechyd gwledig. Roedd y dystiolaeth ar ffurf astudiaethau achos a/neu farn arbenigol a'r ansawdd yn amrywiol. Roedd y rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol yn yr adolygiad yn ceisio mynd i'r afael â gweithgareddau megis cyfraniad y gymuned, datblygu economaidd cynaliadwy a gwaith partneriaeth lleol. Mae'r grwpiau agored i niwed a amlygwyd yn yr adolygiad yn cynnwys dynion a menywod ifanc, pobl hŷn, pobl ddi-waith neu'r rhai sydd mewn cyflogaeth tâl isel, rhai ag anabledd corfforol neu anawsterau dysgu a'u gofal wyr. Ychydig o sylw a roddwyd i faterion lleiafrifoedd ethnig.

Wrth fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol mae'r adolygiad yn nodi pwysigrwydd dull cydgysylltiedig o weithredu polisi a rhaglenni, yn llorweddol a fertigol ar draws ffiniau asiantaethau a'r angen i fynd i'r afael â materion lleiafrifoedd ethnig a chyfle cyfartal yn fwy eang. Mae monitro a gwerthuso mentrau yn systematig, gyda dulliau priodol a dangosyddion llwyddiant perthnasol/hygyrch hefyd yn bwysig.

1. Cyflwyniad a chefndir y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig

1.1 Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Gwledig (RHIP)

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Sefydliad Iechyd Gwledig (IRH) i gynnal yr RHIP er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau a rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth ym maes iechyd a lles yng nghefn gwlad Cymru. Gan fod traean o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig mae angen sail dystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau ac i dargedu materion iechyd a lles yn effeithiol yng nghefn gwlad Cymru. Gwnaed y gwaith ymchwil rhwng mis Tachwedd 2001 a mis Mawrth 2003.

Prif amcanion yr RHIP oedd:
- Darparu safbwynt gwledig ar faterion iechyd a lles i Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- Darparu gwybodaeth am ddatblygiadau ym maes iechyd a lles gwledig yn y DU ac Ewrop a'u goblygiadau i Gymru;
- Datblygu gallu ymchwil i faterion iechyd a lles gwledig ymhellach yng Nghymru, a chynghori ar gyfeiriad gwaith ymchwil y dyfodol.

Defnyddiodd yr RHIP ddull arloesol, aml-haen o gasglu gwybodaeth iechyd. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cynnwys:
- Chwiliad systematig o lenyddiaeth gyhoeddedig ar benderfynyddion marwolaeth, morbidrwydd, amddifadedd a chymdeithasol iechyd yng nghefn gwlad Cymru;
- Chwilio llenyddiaeth sy'n crybwyll y materion hyn a llenyddiaeth heb ei chyhoeddi;
- Adolygu setiau data marwolaeth a morbidrwydd;
- Adolygu setiau data ar faterion cymdeithasol sy'n gweithredu fel penderfynyddion iechyd;
- Arfarnu amrywiaeth o bolisïau iechyd a lles mewn cyd-destun gwledig;
- Astudiaethau achos;
- Arolygon o arbenigwyr iechyd gwledig yng Nghymru, yn y DU ac yn Ewrop.

Roedd yn rhaid i'r RHIP fodloni chwech o ofynion:
- Gofyniad 1: archwilio a dadansoddi'r data ar iechyd a lles yng nghefn gwlad Cymru sydd ar gael;
- Gofyniad 2: archwilio'r dystiolaeth ar sut mae polisïau sy'n gallu effeithio ar iechyd a lles yn cael eu gweithredu yn ardaloedd gwledig Cymru;
- Gofyniad 3: llunio adroddiad ar ddatblygiad Asesu'r Effaith ar Iechyd o ran y materion penodol sy'n wynebu cymunedau gwledig;
- Gofyniad 4: rhwydweithio gyda sefydliadau ac unigolion perthnasol i nodi modelau arferion da sy'n mynd i'r afael â materion iechyd a lles yng Nghymru;
- Gofyniad 5: nodi tri mater iechyd a lles gwledig allweddol a chynnal adolygiadau byr o lenyddiaeth ddiweddar yn y meysydd hyn yn y DU ac Ewrop;
- Gofyniad 6: trefnu a chynnal gweithdy gydag aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cysylltiedig, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Grŵp Gwybodaeth Iechyd Gwledig Cymru gyfan (AWRHIG).

Elfen bwysig o'r RHIP oedd sefydlu AWRHIG, grŵp arbenigol ar faterion iechyd gwledig yng Nghymru i arwain yr ymarfer casglu gwybodaeth a chyfrannu ato. Roedd y grŵp yn cynnwys unigolion o bob cefndir sy'n effeithio'n uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd – gwneuthurwyr polisi, academyddion, arbenigwyr ar iechyd cyhoeddus, swyddogion llywodraeth leol a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol (gweler Atodiad 1).

1.2 Adolygiadau o lenyddiaeth iechyd a lles gwledig

Hwn yw'r ail adroddiad mewn cyfres o dri adolygiad llenyddiaeth iechyd a lles gwledig a gynhelir fel rhan o'r RHIP. Gofynnwyd am safbwyntiau'r AWRHIG ar faterion allweddol ym maes ymchwil i iechyd gwledig yng Nghymru a chafodd y pynciau canlynol eu nodi:

- Materion mesur iechyd gwledig;
- Modelau gwasanaeth a mynediad i iechyd gwledig;
- Cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

Caiff y cysyniad o gynhwysiant cymdeithasol ei ddehongli'n wahanol gan wahanol sefydliadau mewn gwahanol wledydd ac o gefndiroedd athronyddol gwahanol. Er mwyn diffinio paramedrau yr adolygiad hwn o lenyddiaeth mae'r awduron wedi dewis diffiniad eang o gynhwysiant cymdeithasol a gynigiwyd gan y Ganolfan Cynhwysiant Cymdeithasol ac Economaidd (Britton a Casebourne, 2002).

'Social inclusion is the process by which efforts are made to ensure that everyone regardless of experience and circumstances can achieve their potential in life. To achieve social inclusion income and employment are necessary but not sufficient. An inclusive society is also characterised by a striving for reduced inequality, a balance of individual rights and duties and increased social cohesion'.

[1] **Diffiniad o wledigrwydd**
At ddibenion yr astudiaeth mabwysiadwyd diffniad o wledigrwydd (1994) y Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD) (llai na 150 o bobl i bob km sgwâr). Yn seiliedig ar ddwyster poblogaeth y 22 awdurdod unedol, dosbarthwyd naw awdurdod fel rhai gwledig gyda phoblogaeth gyfunol o tua thraean o boblogaeth Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001): Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Powys, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Ynys Môn.

2. Dulliau

2.1 Gweithredu dull Bwletinau Tystiolaeth Iechyd Cymru

2.1.1 Gweithredu dull Bwletinau Tystiolaeth Iechyd Cymru (HEBW) mewn ymchwil i iechyd gwledig

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu Bwletinau Tystiolaeth Iechyd Cymru (HEBW) h.y. chwilio llenyddiaeth yn systematig, arfarnu critigol, graddio tystiolaeth a chyfateb tystiolaeth i ddatganiadau, ynghyd â'r adolygiad mewnol ac allanol (Weightman et al, 2001), yn darparu dull manwl o adolygu llenyddiaeth. Cytunodd yr AWRHIG i ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer adolygiadau o iechyd gwledig.

Fodd bynnag, roedd yna bryderon ynglŷn â'r cyfyngiadau o ran amser yn yr RHIP i baratoi adolygiad mwy trylwyr o dystiolaeth a oedd yn mynd ymhellach na gofynion cychwynnol y rhaglen. Sefydlwyd grŵp arfarnu i archwilio'r defnydd o'r dull HEBW ac i helpu'r broses arfarnu. Roedd yn cynnwys aelodau o'r AWRHIG oedd â buddiant a phrofiad o adolygu papurau ymchwil ac ymchwilwyr allanol wedi'u recriwtio trwy rwydweithiau personol aelodau'r AWRHIG. Cynhaliwyd hyfforddiant ar fethodoleg HEBW, gyda gweithdy dilynol. Gweler Atodiad 2 am restr o fynychwyr y gweithdy.

Yn ystod yr adolygiad daeth yn amlwg fod y papurau yn rhai math IV (astudiaethau arsylwi) neu fath V (barn arbenigol) (gweler Tabl 1) yn bennaf a bod ffurflen yr HEBW yn ymddangos yn amhriodol.
Felly, defnyddiwyd ffurflen arfarnu critigol fewnol ychwanegol i helpu'r broses arfarnu yn yr astudiaethau ansoddol (Atodiad 4).

Tabl 1. Bwletin Tystiolaeth Iechyd Cymru: dosbarthu

Math o dystiolaeth	Enghraifft
Tystiolaeth math I	O leiaf un adolygiad systematig da yn cynnwys o leiaf un treial ar hap wedi'i reoli
Tystiolaeth math II	O leiaf un treial ar hap wedi'i reoli da
Tystiolaeth math III	Astudiaeth ymyrraeth wedi'i chynllunio'n dda ond nid ar hap
Tystiolaeth math IV	Astudiaeth arsylwi wedi'i chynllunio'n dda
Tystiolaeth math V	Barn arbenigol / adroddiadau ac astudiaethau dylanwadol

(Ffynhonnell: Weaver et al, 2002)

2.1.2 Rhwystrau i ddull Bwletin Tystiolaeth Iechyd Cymru

Nid oedd defnyddio methodoleg HEBW gydag ymchwil iechyd gwledig wedi'i brofi o'r blaen. Daeth nifer o anawsterau annisgwyl i'r amlwg yn ystod y gweithdy a'r broses o arfarnu papurau a datblygu datganiadau cryno. Mater allweddol a gododd o'r drafodaeth gyda'r AWRHIG ac yn y gweithdy hyfforddi oedd pa mor briodol oedd defnyddio hierarchaeth tystiolaeth, fel yr un a ddefnyddiwyd yn null HEBW, ar gyfer ymchwil iechyd gwledig.

Awgrymwyd bod y chwiliad o lenyddiaeth, o bosib, wedi methu cyfeiriadau allweddol at faterion mynediad i iechyd gwledig. Caiff y farn hon ei chefnogi gan yr Uned Technoleg Iechyd (Murphy et al, 1998) yn eu hadolygiad o fethodoleg ymchwil ansoddol ym maes asesu technoleg iechyd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad na fyddai'r dulliau a ddefnyddir i gynnal adolygiadau systematig fel rheol yn briodol i'r pwnc gan fod llawer o'r cronfeydd data yn anghyflawn a bod hyn yn arwain at y potensial o duedd yn y dewis yn y papurau sy'n cael eu hadolygu.

Cadarnhaodd y grŵp arfarnu fod ffurflenni arfarnu critigol HEBW yn amhriodol i'r math o dystiolaeth a gyflwynwyd yn y papurau ymchwil gwledig. Ymhellach, cwestiynwyd hierarchaeth y dystiolaeth ei hun, yn arbennig mewn perthynas â phapurau ymchwil ansoddol yn bennaf. Mae mwyafrif y papurau yn cyflwyno tystiolaeth arsylwi a safbwyntiau, ac nid yw'r elfennau hyn yn bwysig iawn mewn hierarchaeth tystiolaeth draddodiadol. Byddai defnyddio hierarchaeth o'r fath yn rhoi argraff gamarweiniol o'r amrywiaeth o dystiolaeth sydd ar gael i ymchwil iechyd gwledig.

2.1.3 System STOX

Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ddatblygu methodoleg drawsbynciol o gynnal adolygiadau systematig mewn pob math o ymchwil (Weaver et al, 2002) yn cyflwyno methodoleg a fyddai'n fwy priodol i adolygiadau o iechyd gwledig, yn arbennig defnyddio system ddosbarthu estynedig (STOX) i ddosbarthu tystiolaeth ymchwil.

Tabl 2. System Ddosbarthu STOX

Math o Dystiolaeth	Dosbarthiad STOX	Dosbarthiad HEBW	Disgrifiad
Adolygiadau Systematig	S1	I	Adolygiad systematig cynhwysfawr yn cynnwys o leiaf un prawf ar hap wedi'i reoli
	S2	IV	Adolygiad systematig cynhwysfawr
Treialon	T1	I	Treial ar hap wedi'i reoli
	T2	III	Treial wedi'i reoli ond nid ar hap
	T3	IV	Treial cyn ac ar ôl ymyrraeth

Continued over leaf

Math o Dystiolaeth	Dosbarthiad STOX	Dosbarthiad HEBW	Disgrifiad
Astudiaethau Arsylwi	O1	IV	Astudiaeth cohort
	O2	IV	Astudiaeth rheoli achos
	O3	IV	Astudiaeth trawstoriad/hydredol yn cynnwys data ystadegol
	O4	IV	Astudiaeth yn defnyddio dulliau ansoddol yn unig
	O5	IV	Astudiaeth achos
Safbwyntiau	X	V	Cytundeb ffurfiol neu farn broffesiynol arall (yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth pan nad oes arwydd o ddull systematig a modelau'n seiliedig ar adolygiadau o lenyddiaeth)

(Ffynhonnell: Weaver et al, 2002)

Mae dosbarthu STOX yn dal i fod yn rhan o hierarchaeth tystiolaeth HEBW ond mae'n cydnabod cyfraniad astudiaethau arsylwi wedi'u rheoli o ansawdd uchel ac yn nodi tystiolaeth i gefnogi hynny. Mae'r awduron hefyd yn cydnabod y cyfraniad mae arolygon ac astudiaethau achos yn ei wneud i greu damcaniaethau a'r defnydd ohonynt fel sail i raglenni ymchwil, sy'n un o brif amcanion yr RHIP. Mae STOX yn ehangu tystiolaeth Math IV HEBW yn sylweddol i amrywiaeth o fathau astudio mwy penodol sy'n ei gwneud hi'n bosib categoreiddio papurau yn fwy manwl.

Yn dilyn trafodaethau gydag aelodau AWRHIG cytunwyd i symud ymlaen gyda'r adolygiadau o iechyd gwledig gan ddefnyddio 'ffordd ganol'. Mae hyn yn cynnwys proses dri cham:

1. Dewis papurau allweddol yn seiliedig ar arfarnu critigol;
2. Dosbarthu'r dystiolaeth gan ddefnyddio systemau STOX a HEBW;
3. Crynhoi canfyddiadau'r papur o ran themâu mewn cyd-destun gwledig.

2.2 Chwilio drwy lenyddiaeth yn systematig

Y geiriau chwilio allweddol a nodwyd ar gyfer yr adolygiad oedd rural neu countryside a social inclusion neu participation a'r geiriau canlynol yn eu tro: rural models of social inclusion, evaluation of social inclusion models, innovative practice, equal opportunities, community, young, teenagers, low income, ethnic minorities, lone parents, disabled, elderly, mentally ill, unemployed, carers, parents a chronically sick. Cyfyngwyd y chwilio i bapurau Saesneg o'r DU o 1999 i 2002. Cafodd amrywiaeth o gronfeydd data electronig eu chwilio fel y rhestrwyd ym Mocs 1. Yn ogystal, gofynnwyd i aelodau AWRHIG anfon cyfeiriadau allweddol yn eu maes arbenigol.

Bocs 1. Ffynonellau craidd

ASSIA, CINAHL, EMBASE, HealthStar, HMIC, MEDLINE, SIGLE, Cochrane Library, NRR, Tystiolaeth Orau, Tystiolaeth Glinigol, NICE, Rhaglen HTA, Canolfan Adolygiadau a Lledaeniad Adolygiadau Systematig y GIG, canllawiau SIGN, Eguidelines, TRIP, OMNI, AMED a Gwe Cronfeydd Data Gwyddonol ISI.

Cafodd canfyddiadau'r chwiliad systematig eu dosbarthu i aelodau AWRHIG gyda chais pellach am astudiaethau ymchwil perthnasol ychwanegol.

2.3 Meini prawf dewis ac arfarnu papurau

Cafodd llenyddiaeth ei chynnwys os oedd y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar fynediad i wasanaethau a phractisau iechyd gyda'r nod o wella mynediad yn ardaloedd gwledig y DU.

Cafodd 94 o ddyfyniadau eu nodi yn y chwiliad cyntaf, gyda 15 ohonynt yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad a'u rhestru yn Atodiad 3. Wrth archwilio'r dyfyniadau o'r 94 papur ymhellach cafodd 58 eu heithrio gan nad oeddynt yn delio'n uniongyrchol â chynhwysiant cymdeithasol gwledig. Cafodd 21 papur arall eu heithrio am nad oeddynt wedi'u lleoli yn y DU, eu bod yn canolbwyntio ar nodi cynhwysiant cymdeithasol yn lle mynd i'r afael ag ef, bod gan y papurau y gair 'gwledig' yn y teitl ond nad oedd yr awduron yn dadansoddi'r dimensiwn gwledig, neu nad oedd gwerthusiad neu fod y fethodoleg werthuso wedi'i disgrifio'n ddigonol. Cafodd un papur o 1998 ei gynnwys yn yr adolygiad er ei fod y tu allan i'r cyfnod amser perthnasol, gan ei fod yn adrodd am waith a wnaed yng Nghymru ac yn disgrifio agwedd ar gynhwysiant cymdeithasol na roddwyd sylw iddi mewn man arall.

Arweiniodd y chwiliad cyntaf o'r 15 papur at nodi dwy is-thema ar faterion cynhwysiant cymdeithasol:

- Ymyriadau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig;
- Astudiaethau gyda goblygiadau ar gyfer polisi cynhwysiant cymdeithasol a chynllunio rhanbarthol.

Neilltuwyd is-thema i bob papur a'u hadolygu'n annibynnol gan o leiaf ddau unigolyn. Cymharwyd y canfyddiadau ac os oedd gwahaniaethau, daethpwyd i gytundeb arnynt.

3. Arfarnu papurau ymchwil

3.1 Ymyriadau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig

1. Barlow J, Gaunt-Richardson P, Amos A, McKie L
Addressing smoking and health among women living on low income II. TAPS Tiree: a dance and drama group for rural community development
Health Education Journal 1999; 58: 321-328

Mae'r papur hwn, yr ail mewn cyfres o dri, yn gwerthuso prosiect a gynhaliwyd ar Ynys Tiree yn yr Alban, i fynd i'r afael ag ysmygu ac iechyd ymysg menywod sy'n byw ar incwm isel. Mae'r prosiect yn un o gyfres o brosiectau a ariannwyd gan Fwrdd Addysg Iechyd yr Alban yn gweithio ar y cyd ag ASH Scotland.

Derbyniodd 'TAPS' Tiree: grŵp drama a dawns arian i gynhyrchu pantomeim Nadolig gyda'r nod o: gynyddu hunan-barch a'r gallu i lwyddo; cyfoethogi'r ysbryd cymunedol; hyrwyddo diddordebau a ac adloniant; rhoi cyfle i fenywod ddatblygu sgiliau newydd a rhoi cymorth i fenywod sy'n ceisio newid eu harferion ysmygu.

Casglwyd data i werthuso'r prosiect trwy fonitro rheolaidd ac ychwanegwyd at hyn trwy gyfweliadau ffôn gyda'r hwyluswyr a chyfweliad manwl gydag un o aelodau'r grŵp cynghori. Ni chyflwynwyd dadansoddiad manwl yn y papur. Y canlyniad pwysicaf a nodwyd gan awduron oedd y datblygiad o hyder a hunan-barch yr holl gyfranogwyr. Maent yn nodi bod y grŵpyn dal i gyfarfod yn anffurfiol ddwy flynedd ar ôl y pantomeim i fynd i'r afael â materion ysmygu a bod y prosiect wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu gweithgareddau cymunedol eraill i fynd i'r afael ag iechyd a hamdden.

STOX - O5 HEBW - IV

2. Wilkinson M
Meeting disadvantaged young people's needs. The rural foyer: an integrated approach
Research Policy and Planning 2001; 19(3): 11-22

Mae'r astudiaeth hon yn adrodd am asesiad anghenion foyer gwledig ym Market Rasen, Swydd Lincoln. Casglwyd data gan sefydliadau statudol a gwirfoddol, preswylwyr foyer, cyn-breswylwyr a staff foyer (presennol a blaenorol) trwy gyfweliadau lled-strwythuredig a thrwy archwilio cofnodion o ddydd i ddydd gweithgareddau'r foyer. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod preswylwyr a staff yn parchu ei gilydd. Adroddodd nifer o asiantaethau allanol fod y foyer yn dueddol o ddelio â phobl ifanc wedi dadrithio, sydd wedi gadael cartref, heb lety arall a'i fod yn cynnig sefydlogrwydd, hyfforddiant a chymorth.

Daw'r awdur i'r casgliad fod y foyer yn cynnig ffordd gyfansawdd o gynorthwyo pobl ifanc agored i niwed ddychwelyd i gymdeithas prif ffrwd ac y byddai problemau pobl ifanc digartref yn yr ardal yn gwaethygu heb y foyer. Mae'r awdur yn cynghori na ddylid dod i gasgliadau cyffredinol o astudiaeth unigol fel hon.

STOX - O4 HEBW - IV

3. Douglas F, Wyness L, Greener J, van Teijlingen E, Duthie L
The Grampian Mobile Information Bus
International Journal of Health Promotion & Education 2002; 40(2): 51-59

Mae'r papur yn rhoi trosolwg o gamau cychwynnol i gynllun peilot 6 mis bws gwybodaeth symudol (MIB) ac yn gwerthuso'r prosiect. Cynllun cymunedol yw'r bws sy'n darparu gwybodaeth am iechyd a meysydd perthnasol i bobl ifanc 12-18 oed mewn ardaloedd gwledig yng ngogledd-ddwyrain yr Alban. Roedd y dulliau gwerthuso'n cynnwys grwpiau ffocws gyda phobl ifanc, cyfweliadau gyda staff y prosiect, arolwg holiadur i ddefnyddwyr sy'n dychwelyd, dadansoddiad cynnwys o gofnodion cyfarfodydd staff a'r dyddiadur. Dangosodd y canfyddiadau fod 1180 o bobl ifanc wedi ymweld â'r bws mewn 6 mis a'u bod yn fodlon iawn â'r hyn a ddarparwyd. Gofynnwyd am wybodaeth am iechyd rhywiol, ysmygu, alcohol, cyffuriau, gyrfaoedd, tai, budd-daliadau a hamdden. Y prif rwystrau i ddefnyddio oedd yr embaras o gael eu gweld yn defnyddio'r MIB a diffyg trafnidiaeth i gyrraedd y bws.

Daeth yr awduron i'r casgliad fod yr MIB yn boblogaidd ymysg pobl ifanc sydd wedi'i ddefnyddio ac sy'n ei weld fel ffynhonnell wybodaeth gredadwy. Mae wedi bod yn gyfrwng ar gyfer newid, gan annog datblygiad cyfleusterau lleol eraill i bobl ifanc. Nid yw'r canfyddiadau'n egluro a lwyddodd yr MIB i ddileu rhwystrau i fynediad i drigolion ardaloedd gwledig, anghysbell ac a yw'r prosiect yn gynaliadwy. Er bod y fethodoleg werthuso'n addas i bwrpas a maint y cynllun, mae'r awduron yn nodi fod yna benbleth o ran beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth. Tynnir sylw hefyd at yr angen am amserlen hirdymor cyn y gellir deall effeithiau a chanlyniadau'n glir, yn enwedig yn achos rhaglenni sydd wedi datblygu yn sgil yr MIB.

STOX - O5 HEBW - IV

4. Hendry L, Reid M
Social relationships and health: the meaning of social 'connectedness' and how it relates to health concerns for rural Scottish adolescents
Journal of Adolescence 2000; 23: 705-719

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon o bryderon iechyd pobl ifanc yng nghefn gwlad yr Alban yn dilyn arolwg mwy a amlygodd bryderon fod materion iechyd yn effeithio ar allu pobl ifanc i integreiddio i rwydwaith cymdeithasol.

Gwirfoddolodd 18 merch a 19 bachgen 14-17 oed i gymryd rhan mewn cyfweliadau unigol.
Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y pryderon iechyd yn cynnwys:
- diffyg hyder neu bryderon am gyflawni;
- rhyngweithio gydag eraill, yn cynnwys delio â gwrthdaro gyda chyfoedion a meithrin cyfeillgarwch da;
- delio ag iselder a phrofiadau emosiynol eraill;
- penderfyniadau am ddefnyddio sylweddau a phryderon am salwch corfforol.

Roedd y bobl ifanc yn teimlo bod oedolion yn dueddol o fychanu profiadau o golled a phoen a allai achosi llawer o ofid a thristwch. Er mwyn lliniaru arwahanrwydd cymdeithasol, mae'r awduron yn awgrymu y dylai pobl ifanc: ddysgu sut i ddatrys gwrthdaro gyda ffrindiau a chyfoedion; helpu i gael mynediad o'r newydd i'w rhwydwaith cymdeithasol os ydynt wedi ffraeo gyda ffrindiau a chyfoedion; gael gafael ar rywun i wrando arnynt; dysgu rheoli tymer ddrwg yn hytrach na mygu eu teimladau; ac y dylai oedolion gydymdeimlo â phobl ifanc am eu pryderon.

STOX - O4 HEBW - IV

5. Crawford P, Brown B
'Like a friend going round': reducing the stigma attached to mental healthcare in rural communities
Health and Social Care in the Community 2002; 10(4): 229-238

Mae'r papur hwn yn disgrifio rhan o astudiaeth ymchwil a oedd yn ymchwilio i natur darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl mewn ardal wledig yng ngogledd Canolbarth Lloegr. Cynhaliwyd wyth grŵp ffocws gyda 33 o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol a 15 o ddefnyddwyr gwasanaeth. Datgelodd y canfyddiadau fod defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n unig pan fyddant yn sâl gan fod eu cydweithwyr yn eu gadael. Roedd diffyg preifatrwydd mewn cymuned wledig yn achosi anawsterau a chleientiaid o ganlyniad yn ystyried rhoi'r gorau i driniaeth. Roedd ymarferwyr wedi datblygu strategaethau i osgoi stigmateiddio defnyddwyr gwasanaeth, megis gweld cleient yn y clinig yn hytrach nag yn eu cartref. Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo ei bod hi'n bwysig eu bod yn gallu rheoli pwy oedd yn gwybod am eu salwch ac roeddynt yn ymwybodol iawn (yn wahanol i'r gred gyffredin) o fywyd pentref.

Mae'r awduron yn awgrymu bod gan weithwyr proffesiynol swyddogaeth bwysig i gynnal cysylltiadau cymdeithasol a statws cymdeithasol pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yng nghefn gwlad. Tra bod yr awduron yn awgrymu y gellid cynnwys y pwnc hwn mewn hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, maent hefyd yn cydnabod mai astudiaeth fechan yw hon a bod angen mwy o ymchwil cyn ystyried ailgynllunio cyrsiau.

STOX - O4 HEBW -IV

3.2 Studies with implications for social inclusion policy and regional planning

6. Day G
Working with the grain? Towards sustainable rural and community development
Journal of rural studies 1998; 14(1): 89-105

Mae'r papur yn archwilio damcaniaeth gymdeithasol ddiweddar, modelau datblygu rhanbarthol a lleol newydd ac yn trafod eu perthnasedd wrth geisio sicrhau datblygiad gwledig cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r awdur yn defnyddio datblygiadau cyfoes diweddar yng nghefn gwlad Cymru i hysbysu'r drafodaeth. Mae'n dadlau bod yr ailfeddwl diweddar ynglŷn â manteision marchnad fyd-eang yn golygu bod nodweddion traddodiadol natur wledig, yr arferwyd eu hystyried fel nodweddion arafgynnydd, bellach yn nes at yr amodau sydd bellach yn cael eu hystyried fel ffynhonnell o gryfder economaidd.

Diwylliant a chymuned yw'r grymoedd allweddol mewn llwyddiant economaidd ac mae'r awdur yn disgrifio'r angen i adeiladu ar gryfder cymunedau lleol gan gysoni cysylltiadau cymdeithasol y gymuned gyda'r gwaith o geisio bodloni amcanion economaidd a gwleidyddol lleol trwy weithio mewn cytgord â'r hyn sydd ar gael yn barod. Gellir datblygu gweithgarwch economaidd i'r eithaf trwy'r effaith lluosydd gan ddefnyddio cynlluniau prynu lleol i gael a chadw busnesau yn y clwstwr economaidd lleol. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r rhwydweithiau yn gallu datblygu'n naturiol gydag amser a thrwy normau a gwerthoedd a rennir yn hytrach na strwythur penodedig wedi'i ddiffinio gan ffiniau sefydliadol. Daw'r awdur i'r casgliad bod angen i'r rhai sy'n cyflwyno newid a datblygiadau mewn cymunedau gwledig ystyried pethau a gweithio ar sail cryfderau bywyd cymdeithasol a diwylliannol.

STOX - X HEBW - V

7. Crawley J
Changing the future: tackling rural poverty and social exclusion through the work of a community foundation
London: Community Foundation Network 2001

Nod y papur yw helpu'r Rhwydwaith Sylfaen Cymunedol i ddatblygu mesurau i asesu effaith cyllid a gwerthuso ei swyddogaeth o ran mynd i'r afael â thlodi cymunedol mewn cymuned wledig. Mae'r papur yn cyflwyno gwybodaeth gyfyngedig am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth ond mae'n ymddangos bod cyfweliadau manwl wedi'u cynnal gyda phump o gyllidwyr gwahanol, gweithwyr a gwirfoddolwyr yn y prosiectau a gyllidwyd ac o leiaf un defnyddiwr gwasanaeth o bob prosiect. Roedd cynnwys y cyfweliadau yn seiliedig ar ganfyddiadau holiadur post rhagarweiniol a anfonwyd i 70 asiantaeth, lle derbyniwyd 62 o ymatebion.

Mae'r papur yn nodi gweithgareddau nifer o brosiectau sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed mewn ardaloedd gwledig ac yn dod i'r casgliadau canlynol ynglŷn â swyddogaeth cyllidwyr prosiectau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig:

- Dylid mynd ati i annog sefydliadau cymunedol i barhau ac ymestyn eu swyddogaeth i gael pob sector i ddod ynghyd i geisio atebion;
- Dylai darparwyr grantiau gydnabod gwerth buddsoddi mewn grwpiau ar lawr gwlad er mwyn annog pobl i gymryd rhan;
- Gall creu cyfalaf cymdeithasol ddarparu fframwaith i ddarparwyr grantiau ar gyfer gweithgarwch a fyddai'n dameidiog ac ar hap fel arall;
- Dylai darparwyr grantiau wneud y defnydd gorau o adnoddau lleol sydd â gwybodaeth dda am yr ardal;
- Dylai sefydliadau cymunedol barhau i geisio cadw eu hannibyniaeth fel darparwyr grantiau a dylanwadu ar roddwyr;
- Mae angen i ddarparwyr grantiau ddeall dimensiwn gwledig cyllido a goblygiadau cost darparu gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig.

STOX - O4 HEBW - IV

8. Alsop R, Clisby S, Craig G, Evans R, Hockey J
Beyond the Bus Shelter. Young women's choices and challenges in rural areas
Young Women's Christian Association 2002

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio sut fywyd sydd gan fenywod ifanc yn ardaloedd gwledig Prydain a sut maent yn ymateb i allgáu cymdeithasol gwledig. Defnyddiwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws i gasglu data gan fenywod 16-25 oed, yn cynnwys y rhai oedd ag addysg gyfyngedig, ar incwm isel, aelodau o grŵp lleiafrifoedd ethnig, pobl ddi-waith a mamau ifanc. Dewiswyd samplau mewn tri safle trwy hysbysebu am fenywod i gymryd rhan. Cafodd 30 o fenywod eu cyfweld gyda 34 arall yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Dangosodd y canfyddiadau fod yna ddiffyg cyfleusterau angenrheidiol i gymryd rhan yn yr amgylchedd gwledig, megis diffyg gweithgareddau cymdeithasol, trafnidiaeth wael, diffyg cyfleoedd addysg a chyflogaeth, tai drud, diffyg gofal plant fforddiadwy a diffyg gwasanaethau i leiafrifoedd ethnig. Mae'r awduron yn argymell y dylid mynd i'r afael â'r holl faterion hyn er mwyn helpu menywod ifanc i gael eu cynnwys mewn

cymdeithas. Hefyd, maent yn awgrymu y dylid cael gwasanaethau datblygedig mewn Meddygfeydd gwledig, technoleg gwybodaeth well a mwy o weithgareddau allgymorth, yn cynnwys llinellau cymorth ac unedau symudol.

STOX - O4 HEBW -IV

9. Neal S
Rural landscapes, representations and racism: examining multicultural citizenship and policy-making in the English countryside
Ethnic and Racial Studies 2002; 25(3): 442-461

Mae'r papur yn edrych ar hiliaeth yng nghefn gwlad Lloegr trwy gyfrwng llenyddiaeth a dwy astudiaeth achos. Mae'r ymchwil cyfyngedig sydd ar gael yn dangos bod hiliaeth yn bodoli yng nghefn gwlad Lloegr ond ei fod yn cael ei wthio i'r ymylon, ei anwybyddu neu ei wrthod mewn cyd-destun gwleidyddol a pholisi. Dengys canfyddiadau cychwynnol yr astudiaethau achos bod dimensiwn arbennig i hiliaeth cefn gwlad a'i fod yn ymddangos mewn ffyrdd gwahanol i'r cyd-destun trefol.Y prif reswm am hyn yw agwedd amheus pobl cefn gwlad at newydd-ddyfodiaid y mae gofyn iddynt ymdoddi i'r gymuned a chael eu gweld yn gwneud hynny. Mae'r awdur yn dadlau y gellir bod angen i strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth yng nghefn gwlad ddefnyddio gwahanol fodelau i'r rhai a ddefnyddir yn ninasoedd Lloegr. Daw i'r casgliad fod yna rywfaint o dystiolaeth bod gwneuthurwyr polisi gwledig o'r diwedd yn cydnabod perthnasedd hil ac ethnigrwydd i gefn gwlad Lloegr ond mae'n cwestiynnau effaith y newid agwedd hwn.

STOX - X HEBW - V

10. Social Services Inspectorate
Cooperation is the key to ease rural isolation
Careplan 1999; 6(1): 33-36

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o wasanaethau i bobl hŷn ac oedolion ifanc gydag anableddau corfforol mewn wyth cymuned wledig yn Lloegr. Cynhaliwyd yr arolwg gan Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dosbarthodd yr Arolygiaeth holiaduron i ddefnyddwyr gwasanaeth. Archwiliwyd cofnodion achosion a chynhaliwyd trafodaethau gyda rheolwyr gofal, uwch-reolwyr a chynrychiolwyr asiantaethau eraill gan gynnwys grwpiau gwirfoddol, a chynghorau gwledig a dosbarth. Nid oedd y testun yn darparu manylion am y trefniadau dewis.

Mae'r canfyddiadau'n dangos mai dim ond 55 y cant o ddefnyddwyr gwasanaeth oedd wedi derbyn gwybodaeth am wasanaethau cymdeithasol. Nododd sefydliadau anawsterau o ran darparu gwasanaethau gofal cartref yn sgil problemau recriwtio, cyfyngiadau o ran dewis, costau teithio a threfnu amser staff yn effeithiol. Roedd daearyddiaeth yr ardal yn peri problem o ran cludo pobl i ddarpariaeth gofal dydd ac yn y trefniadau ar gyfer darparu pryd ar glud.

Gwelodd yr Arolygiaeth lawer o enghreifftiau da o gydweithio rhwng asiantaethau gwirfoddol, yn cynnwys gwasanaethau cludo presgripsiwn, systemau trafnidiaeth, llinellau argyfwng, cyngor a chymorth. Gwelwyd enghreifftiau o adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn dod o hyd i atebion creadigol fel: cynnwys

dimensiwn gwledig wrth gynllunio a chyllidebu; chwilio am atebion arloesol ym maes trafnidiaeth a chydnabod mai cydweithio ag asiantaethau eraill yw'r ffordd orau o ddatrys rhai problemau.

Mae'r Arolygiaeth yn awgrymu bod angen cynllunio a darparu gwasanaethau trwy bartneriaeth. Maent hefyd yn awgrymu y byddai sefydliadau gwirfoddol yn fwy effeithiol o gael arian mwy sicr.

STOX - O3 HEBW - IV

11. Monk S, Dunn J, Fitzgerald M, Hodge I
Finding work in rural areas: barriers and bridges
York: Joseph Rowntree Foundation, 1999

Roedd yr astudiaeth yn edrych i ba raddau mae agweddau ar fyw mewn ardaloedd gwledig yn cyfyngu ar allu pobl i gymryd rhan yn y farchnad lafur. Cynhaliwyd yr ymchwil mewn dwy ardal wledig yn Suffolk a Swydd Lincoln. Dosbarthwyd holiadur i 400 o bobl ddi-waith neu a oedd yn edrych am waith arall, a dilynwyd hyn gyda 60 cyfweliad manwl.

Dangosodd yr arolwg fod cyflogau'n uwch yn Suffolk o gymharu â Swydd Lincoln. Dangosodd y cyfweliadau manwl bedwar prif gyfyngiad ar gael gwaith mewn ardaloedd gwledig: sgiliau a swyddi ddim yn cyfateb; problemau trafnidiaeth; ymddygiad ac agweddau cyflogwyr at bobl sy'n gorfod teithio ymhell; ac anawsterau sy'n cael eu hachosi gan dai clwm, gwaith criw a chyflogaeth dymhorol. Roedd y strategaethau a fabwysiadwyd i gael cyflogaeth yn cynnwys:

- Cael cyflogaeth trwy rwydweithiau lleol. Gan fod llawer o gyflogwyr yn dewis peidio â hysbysebu swyddi yn ffurfiol roedd newydd-ddyfodiaid nad oeddynt yn gysylltiedig â rhwydweithiau lleol dan anfantais;
- Mynd yn hunan-gyflogedig;
- Cwmnïau'n darparu bws gwaith;
- Defnyddio rhwydweithiau cymorth anffurfiol fel ffrindiau neu deulu i helpu gyda gofal plant a phroblemau trafnidiaeth.

Daeth yr awduron i'r casgliad fod yr ymchwil yn datgelu cydberthynas gymhleth rhwng problemau sy'n ymddangos yn wahanol, er enghraifft, cyflogaeth, trafnidiaeth a gofal plant. Yn ogystal, gan fod llawer o bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd gwasgaredig, mae yna beryg i'w hanghenion cymhleth beidio â chael eu diwallu.

STOX - O3 HEBW - IV

12. Pavis S, Hubbard G, Platt S
Young people in rural areas: Socially excluded or not?
Work, Employment and Society 2001; 15(2): 291-309

Nod yr astudiaeth oedd adrodd am brofiadau pontio pobl ifanc gyda chymwysterau addysgol isel yn nwy ardal wledig yn yr Alban. Mae'r profiadau hyn yn cynnwys pontio o ysgol i waith, o gartref rhieni i gartref annibynnol, ac o deulu gwreiddiol i deulu newydd. Mae hon yn astudiaeth wedi'i chynllunio'n dda ac yn rhan o raglen fwy a gomisiynwyd gan raglen y Joseph Rowntree Foundation ar gyfer Gweithredu mewn Ardaloedd Gwledig. Mae'r fethodoleg wedi'i disgrifio'n dda gyda sylw manwl i ddulliau samplu, casglu data a gweithdrefnau dadansoddi, yn cynnwys cyfweliadau gyda 30 o bobl ifanc yn y ddau leoliad astudio.

Mae'r canfyddiadau'n nodi fod rhan fwyaf yr ymatebwyr mewn cyflogaeth ond yn ennill llai na'r cyfartaledd. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cael cyflogaeth trwy rwydweithiau anffurfiol ar sail eu henw da. Dim ond pedwar ymatebydd oedd yn byw mewn cartref i berson sengl neu'n rhannu fflat, ac roedd y rhan fwyaf yn byw gyda'u rhieni nes eu bod yn symud i gyd-fyw â'u cariadon neu'n priodi. Mae'r awduron yn herio prif farciwr cynhwysiant cymdeithasol y llywodraeth sef cyflogaeth, gan ddatgan fod rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cael eu categoreiddio fel 'cynwysedig'. Fodd bynnag, pe byddai'r ymatebwyr hyn yn dechrau byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gyda'u teuluoedd eu hunain, byddai anawsterau'n si r o godi. Mae'r awduron yn trafod y canfyddiadau yng nghyd-destun gwahanol ddamcaniaethau cynhwysiant cymdeithasol. Maent yn dod i'r casgliad y dylai polisïau cynhwysiant cymdeithasol ganolbwyntio ar y broses o gynnwys yn ogystal â'r canlyniadau. Byddai hyn yn rhoi cyfle i unigolion wneud eu dewisiadau eu hunain i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gan ddefnyddio eu 'hadnoddau' eu hunain o fewn y 'mannau' sydd ar gael iddynt. Mae'r awduron yn gwneud y pwynt fod yr un amgylchiadau'n gallu cael eu hystyried fel rhai digonol ar rai adegau mewn bywyd tra'n annigonol ar adegau eraill.

STOX - O4 HEBW - IV

13. Moor C, Whitworth G
All together now? - social inclusion in rural communities
Local Government Association 2001

Mae'r papur yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o waith cynhwysiant cymdeithasol awdurdodau lleol gwledig. Arolygwyd 155 awdurdod gwledig yng Nghymru a Lloegr a derbyniwyd ymateb gan 105 ohonynt. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod cynhwysiant cymdeithasol yn flaenoriaeth gorfforaethol i 63 y cant o awdurdodau ac roedd gan bron i draean ohonynt strategaethau cynhwysiant cymdeithasol neu wrth-dlodi ffurfiol. Roedd gan chwedeg chwech y cant bartneriaethau strategaethau lleol, tra mai dim ond 43 y cant oedd â swyddogion penodol ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol o gymharu â 50 y cant mewn awdurdodau yn gyffredinol. Daeth yr awduron i'r casgliad fod awdurdodau gwledig ar y cyfan wedi gwneud llai o gynnydd ym maes cynhwysiant cymdeithasol nag awdurdodau yn gyffredinol a nodwyd yr argymhellion canlynol:

- Mae angen i awdurdodau gwledig wneud cynhwysiant cymdeithasol yn flaenoriaeth gorfforaethol;
- Mae angen profi elfen wledig (cynhwysiant cymdeithasol) pob gweithgarwch;
- Mae angen monitro effeithiolrwydd gwaith cynhwysiant cymdeithasol a gwrth-dlodi;
- Mae angen i awdurdodau lleol weithio gydag eraill, yn enwedig ar draws haenau o lywodraeth leol, i ymrwymo i wella darpariaeth gwasanaeth yn barhaus ac i greu achos dros gyllido digonol.

STOX - O5 HEBW - IV

14. Shucksmith M
Endogenous development, social capital and social inclusion: perspectives from LEADER in the UK
Sociologica Ruralis 2000; 40(2): 208-217

Mae'r papur yn adolygu profiad rhaglen LEADER yn y DU. Rhaglen a gyllidir gan yr UE yw LEADER i ganfod atebion arloesol i broblemau yng nghefn gwlad a allai adlewyrchu beth sydd orau i ardaloedd penodol. Mae'r awdur yn defnyddio damcaniaethau cymdeithasegol, llenyddiaeth gyfoes ac yn nodi enghreifftiau o raglenni LEADER i gefnogi ei bwyntiau.

Mae'r materion a drafodwyd yn yr adolygiad yn cynnwys y tensiwn rhwng creu cyfalaf cymdeithasol er budd cymuned a gwthio unigolion sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses hon i'r ymylon. Awgrymir nad

yw tlodi gwledig, o safbwynt bod ar yr ymylon yn economaidd, yn gyfystyr â bod ar yr ymylon yn ddaearyddol a bod ymyriadau i geisio lleihau allgáu gofodol yn ateb annigonol.

Ychydig o dystiolaeth welodd yr awdur am sut i greu cyfalaf cymdeithasol ac argymhellodd gynnal ymchwil ansoddol sy'n ymchwilio i brofiad datblygiad mewndarddol dros lawer o flynyddoedd. Yn olaf, daw'r awdur i'r casgliad fod datblygu economaidd a datblygu cymdeithasol yn ddibynnol ar ei gilydd ac na ddylid lleoli rhaglenni datblygu gwledig mewndarddol mewn adrannau amaethyddol neu asiantaethau economaidd - dylent fod yn drawsbynciol a dylid adlewyrchu hyn mewn strwythurau trefniadol. Dylai rhaglenni ganolbwyntio ar broses yn hytrach na chanlyniadau, yn enwedig mewn perthynas â datblygu gallu ar y cyd a gallu unigolion. Mae angen edrych ar bethau yn yr hirdymor i greu cyfalaf cymdeithasol os gellir gwneud hynny, trwy ddatblygu normau cymdeithasol, rhwydweithiau ac ymrwymiad dinesig.

STOX - X HEBW - V

15. Shucksmith M

Exclusive countryside? Social inclusion and regeneration in rural areas
Joseph Rowntree Foundation York, 2000

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu canfyddiadau rhaglen ymchwil y Joseph Rowntree Foundation ar gyfer Gweithredu mewn Ardaloedd Gwledig, a oedd yn cynnwys 10 rhaglen ymchwil mewn gwahanol ardaloedd gwledig ym Mhrydain. Mae'r awduron yn crynhoi'r astudiaethau ymchwil, yn nodi goblygiadau polisi ac yn gwneud nifer o awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

Y materion sy'n sail i gynhwysiant cymdeithasol yng nghefn gwlad yw tlodi gwledig cudd sy'n anos i fynd i'r afael ag ef trwy bolisïau ardal; lefel uchel o dlodi mewn cartrefi hŷn, preifat fel rheol; pobl ddim yn manteisio ar fudd-daliadau, sy'n adlewyrchiad o ddiffyg hygyrchedd canolfannau cymorth a gwybodaeth; cyflogau isel, yn enwedig mewn gweithleoedd bach, pobl hŷn nad ydynt yn rhan o'r farchnad lafur; llawer o dlodi ymysg pobl hunan-gyflogedig; diffyg trafnidiaeth a thai fforddiadwy a'r flaenoriaeth isel a roddir i allgáu gwledig gan wneuthurwyr polisi.

Daw'r awdur i'r casgliad y dylid cymryd y camau canlynol i hwyluso cynhwysiant cymdeithasol:

- Profi allgáu gweldig, lle mae'r holl bolisïau cyfredol, arferion arfaethedig, deddfwriaeth arfaethedig a mentrau polisi'n cael eu harchwilio o ran eu heffaith ar incwm isel mewn ardaloedd gwledig;
- Mynd i'r afael â chyflogau isel;
- Integreiddio i waith;
- Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar fudd-daliadau trwy roi gwell mynediad i gyngor a gwybodaeth;
- Codi pensiynau i bobl sy'n dibynnu ar bensiwn y wladwriaeth yn unig;
- Polisïau cydgysylltiedig er mwyn gallu delio â materion cymhleth fel cynhwysiant cymdeithasol ar bob lefel.

STOX - X HEBW - V

4. Trafodaeth

4.1 Ystyriaethau methodolegol

ROEDD y system ddosbarthu STOX yn llai defnyddiol nag yn y ddau adolygiad blaenorol o faterion mesur a mynediad, yn bennaf yn sgil natur y dystiolaeth oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad. Cyfuniad o astudiaethau arsylwadol a barn arbenigol o ansawdd amrywiol oedd hyn yn bennaf.

Un o'r materion a godwyd yn y papurau a adolygwyd oedd natur y dystiolaeth a ystyriwyd wrth ddatblygu polisi ac ymarfer. Mae Douglas et al (2002), yn eu gwerthusiad o Fws Gwybodaeth Symudol i bobl ifanc, yn dadlau bod eu hastudiaeth yn ateb y diben ond na fyddai'n cael ei osod yn uchel mewn hierarchaeth tystiolaeth draddodiadol (tystiolaeth Math IV dan ddosbarthiad HEBW). Gellir dweud yr un peth am bapurau eraill yn yr adolygiad hwn.

Yn gyffredinol, mae'r astudiaethau a gyflwynwyd yma yn rhoi gwybodaeth am nodweddion cynhwysiant cymdeithasol gwledig, neu'n cyflwyno argymhellion ar sut i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol. Dim ond dwy astudiaeth oedd yn adrodd am werthuso effaith rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol. Ymhlith y papurau a oedd wedi'u heithrio o'r adolygiad, roedd nifer fechan yn disgrifio mentrau cynhwysiant cymdeithasol lleol oedd yn darparu tystiolaeth anecdotaidd o effeithiau cadarnhaol sy'n codi o raglenni cynhwysiant cymdeithasol gwledig fel lleihau triwantiaeth, lleihau lefelau troseddu, lleihau ceisiadau am gael symud o stadau tai (e.e. Skidmore, 2001) a sefydlu grwpiau chwarae (e.e. Dobson, 2000). Mae yna gyfle pendant i gael dull mwy systematig o gael y math hwn o wybodaeth neu i helpu rhaglenni lleol i asesu a lledaenu canlyniadau'n fwy effeithiol. Dylid nodi nad yw'r diffyg ymchwil gwerthusol yn unigryw i'r maes polisi arbennig hwn (Macintyre, 2003).

4.2 Themâu sy'n dod i'r amlwg

Er gwaethaf cyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael, mae yna themâu cyson yn dod i'r amlwg yn yr astudiaethau diweddar sy'n cael eu hadolygu yma. Maent yn rhoi arweiniad ar gyfer gweithredu pellach ar gynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig.

- Roedd rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol a arfarnwyd yn yr adolygiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â gweithgareddau fel: hyrwyddo cyfranogiad unigolion trwy eu cynorthwyo i ennill sgiliau, gwybodaeth, hunan-barch neu ymdeimlad o gyfrifoldeb dinesig; ailstrwythuro sefydliadau statudol a gwirfoddol i hyrwyddo cyfranogiad cyfartal; hyrwyddo datblygu economaidd cynaliadwy; a phartneriaethau lleol cynhwysol cryf.

- Mae grwpiau agored i niwed a amlygwyd yn yr adolygiad yn cynnwys: dynion a menywod ifanc; pobl hŷn; y di-waith; a phobl ar incwm isel gydag anabledd corfforol, neu anawsterau dysgu a'u gofalwyr. Ychydig o sylw a roddwyd i faterion lleiafrifoedd ethnig. Dim ond tair astudiaeth oedd mynd i'r afael â materion iechyd yn uniongyrchol.

- Mae'r adolygiad yn nodi pwysigrwydd proses cynhwysiant cymdeithasol a'r angen am ddull cydgysylltiedig i weithredu cynhwysiant cymdeithasol gwledig yn llorweddol a fertigol ar draws ffiniau asiantaethau. Mae angen hyn er mwyn mynd i'r afael â'r gydberthynas gymhleth rhwng anghenion cyflogaeth, tai, cyflog isel,

trafnidiaeth, gofal plant ac anghenion iechyd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r dystiolaeth yn nodi pwysigrwydd adeiladu ar gryfderau cymunedau a'r angen am rwydwaith cryf o bartneriaethau sy'n gallu datblygu'n naturiol dros gyfnod estynedig. Dylid annog sefydlu rhaglen gymorth i alluogi unigolion agored i niwed gymryd rhan.

- Mae angen i raglenni cynhwysiant cymdeithasol gwledig fynd i'r afael â materion iechyd ac ethnigrwydd, hyrwyddo cyfle cyfartal ac annog pobl i gymryd rhan yn y gymuned.

- Dylid monitro a gwerthuso rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol gwledig trwy raglen systematig, strwythuredig gan ddefnyddio dulliau ymchwil priodol i gasglu dangosyddion llwyddiant perthnasol a hygyrch.

Cyfeiriadau

Britton L, Casebourne J. (2002) Defining Social Exclusion. Working Brief 136. Llundain: Centre for Economic & Social Inclusion. www.cesi.org.uk

Dobson R. (2000) Country Challenge. Community Care Magazine (May 31). www.community-care.co.uk

Macintyre S. (2003) Evidence-based policy making. British Medical Journal; 326: 5-6.

Murphy E, Dingwall R, Greatbatch D, Parker S, Watson P. (1998) Qualitative research methods in Health Technology Assessment: a review of the literature. Health Technology Assessment; 2(16).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2001) Ffocws Ystadegol ar Gymru Wledig. Caerdydd: CCC.

Organisation for Economic Co-operation and Development. (1994) Creating rural indicators for shaping territorial policy. Paris: OECD.

Skidmore S. (2001) Estate of development. Community venture. Druglink; 16(6): 14-15.

Weaver N, Williams JL, Weightman AL, Kitcher H, Temple J, Jones P, Palmer S. (2002) Taking STOX: developing a cross disciplinary methodology for systematic reviews of research on the built environment and the health of the public. Journal of Epidemiology and Community Health; 56(1): 48-55.

Weightman AL., Barker J., Lancaster J., (2001) Health Evidence Bulletin Wales: A systematic approach to identifying evidence: Project Methodology 4. http://www.hebw.uwcm.ac.uk

Atodiad 1

Aelodaeth Grŵp Gwybodaeth Iechyd Gwledig Cymru Gyfan (AWRHIG) as of July 2002

Mrs Trish Buchan	Sefydliad Iechyd Gwledig
Mr Gareth Davies	Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Dr Jenny Deaville	Sefydliad Iechyd Gwledig
Ms Jacqueline Dix	Age Concern Cymru
Dr David Fone	Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Ms Lindsay Foyster	Mind Cymru
Ms Catriona Graham	Cyngor Sir Powys
Yr Athro Mark Goodwin	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Ms Marie Grannell	Cymdeithas Arbenigwyr Addysg Iechyd/Hybu Iechyd
Ms Margaret Hands	Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion
Dr Barry Hounsome	Prifysgol Cymru, Bangor
Ms Helen Howson	Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Parch Roger Ellis Humphreys	Fforwm Gwledig Cymru
Yr Athro Joyce Kenkre	Prifysgol Morgannwg
Mr Edward H Lewis	Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Ms Catherine Mullin	Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth
Ms Kaori Onoda	Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Hybu Iechyd
Mrs Grace Lewis Parry	Grŵp Iechyd Lleol Gwynedd
Ms Cath Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gyfarwyddiaeth Ystadegau
Mr Chris Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Hybu Iechyd
Mr Jasper Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Polisi Gwledig
Miss Daisy Seabourne	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Mr David Seal	Canolfan Iechyd Cymru
Dr Paul Walker	Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru
Yr Athro Clare Wenger	Prifysgol Cymru, Bangor
Ms Simant Westley	Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru
Yr Athro John G Williams	Prifysgol Cymru, Abertawe
Dr John Wynn-Jones	Sefydliad Iechyd Gwledig

Atodiad 2

Y Tîm Arfarnu yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2002

Ms Dawn Armstrong Esther	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Ms Glynis Bennett	Prifysgol Morgannwg
Mrs Trish Buchan	Sefydliad Iechyd Gwledig
Ms Rebecca Cannings	Uned Data Llywodraeth Leol
Ms Caroline Davies	Rhwydwaith Gwybodaeth Gofid Cefn Gwlad
Mr Gareth Davies	Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Dr Jenny Deaville	Sefydliad Iechyd Gwledig
Yr Athro Mark Goodwin	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Ms Marie Grannell	Cymdeithas Arbenigwyr Addysg Iechyd / Hybu Iechyd
Ms Roswyn Hakesley Brown	Prifysgol Morgannwg
Mr Barry Hounesome	Prifysgol Cymru, Bangor
Ms Lesley Jones	Sefydliad Iechyd Gwledig
Yr Athro Joyce Kenkre	Prifysgol Morgannwg
Ms Allyson Lipp	Prifysgol Morgannwg
Mr Iain Mansall	Prifysgol Morgannwg
Ms Kate Mitchison	Sefydliad Iechyd Gwledig
Ms Kaori Onoda	Llywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Hybu Iechyd
Ms Delyth Owens	Cyngor ar Bopeth
Mr Nick Read	Caplan Amaethyddol
Ms Cath Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru, Uned Ystadegau a Dadansoddi Iechyd
Dr Yvonne Tommis	Prifysgol Cymru, Bangor
Yr Athro Clare Wenger	Prifysgol Cymru, Bangor
Ms Louise Wilson	Sefydliad Iechyd Gwledig

Atodiad 3

Rhestr o'r papurau a adolygwyd

Alsop R, Clisby S, Craig G, Evans R, Hockey J. (2002) Beyond the Bus Shelter. Young women's choices and challenges in rural areas. Rhydychen: Young Women's Christian Association.

Barlow J, Gaunt-Richardson P, Amos A, McKie L. (1999) Addressing smoking and health among women living on low income II. TAPS Tiree: a dance and drama group for rural community development. Health Education Journal; 58: 321-328.

Crawford P, Brown B. (2002) 'Like a friend going round': reducing the stigma attached to mental healthcare in rural communities. Health and Social Care in the Community; 10(4): 229-238.

Crawley J. (2001) Changing the future: tackling rural poverty and social exclusion through the work of a community foundation. Llundain: Community Foundation Network.

Day G. (1998) Working with the grain? Towards sustainable rural and community development. Journal of rural studies; 14(1): 89-105.

Douglas F, Wyness L, Greener J, van Teijlingen E, Duthie L. (2002) The Grampian Mobile Information Bus. International Journal of Health Promotion & Education; 40(2): 51-59.

Hendry L, Reid M. (2000) Social relationships and health: the meaning of social 'connectedness' and how it relates to health concerns for rural Scottish adolescents. Journal of Adolescence; 23: 705-719.

Monk S, Dunn J, Fitzgerald M, Hodge I. (1999) Finding work in rural areas: barriers and bridges. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.

Moor C, Whitworth G. (2001) All together now? - social inclusion in rural communities. Llundain: Cymdeithas Llywodraeth Leol.

Neal S. (2002) Rural landscapes, representations and racism: examining multicultural citizenship and policy-making in the English countryside. Ethnic and Racial Studies; 25(3): 442-461.

Pavis S, Hubbard G, Platt S. (2001) Young people in rural areas: Socially excluded or not? Work, Employment and Society; 15(2): 291-309.

Shucksmith M. (2000) Exclusive countryside? Social inclusion and regeneration in rural areas. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.

Shucksmith M. (2000) Endogenous development, social capital and social inclusion: perspectives from LEADER in the UK. Sociologia Ruralis; 40(2): 208-217.

Social Services Inspectorate. (1999) Cooperation is the key to ease rural isolation. Careplan; 6(1): 33-36.

Wilkinson M. (2001) Meeting disadvantaged young people's needs. The rural Foyer: an integrated approach. Research Policy and Planning; 19(3): 11-22.

Atodiad 4

Ffurflen arfarnu critigol: cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig

Enw'r adolygwr

Manylion y cyhoeddiad

Rhowch gylch o gwmpas un o'r mathau canlynol o gyhoeddiadau a rhoi'r manylion angenrheidiol ar gyfer pob math, gan ddefnyddio'r gofod isod

1. Erthygl mewn cyfnodolyn	Awdur/on, teitl yr erthygl, teitl y cyfnodolyn, dyddiad/cyfrol/rhifyn/tudalennau
2. Adroddiad/llyfr	Awdur/on, teitl, tudalennau, dyddiad/lle/cyhoeddwr
3. Pennod mewn llyfr	Awdur/on, teitl y bennod, tudalennau'r bennod, golygydd/ion y llyfr, teitl y llyfr, dyddiad/argraffiad/lle/cyhoeddwr
4. Traethawd ymchwil/traethawd hir	Awdur, teitl traethawd ymchwil/hir, gradd/sefydliad, dyddiad

A: Nodau ac amcanion yr astudiaeth

Beth yw nodau ac amcanion yr astudiaeth?

.....

.....

B: Mynediad i iechyd yng nghefn gwlad

Beth yw'r broblem/mater allweddol sy'n cael ei hystyried yn yr astudiaeth?
Defnyddiwch eiriau allweddol a restrwyd yn y papur, os oes rhai.

.....

.....

C: Diffiniadau o natur wledig (neu dermau tebyg e.e. ardaloedd arunig neu anghysbell ac ati)

A yw'r astudiaeth yn diffinio 'natur wledig' yn glir? Ydy ☐ Nac ydy ☐
Os ydy, beth yw'r diffiniad?

.....

.....

D: Dulliau astudio

Dulliau ymchwil (Rhowch gylch am bob un perthnasol)

Meini prawf Bwletin Tystiolaeth Iechyd
Adolygiad systematig neu feta-ddadansoddiad (tystiolaeth Math I)
Treial wedi'i reoli ar hap (RCT) (tystiolaeth Math II)
Astudiaeth ymyrraeth (cyn ac ar ôl cynllunio) (tystiolaeth Math III)
Astudiaeth arsylwadol (cohort, trawstoriadol (tystiolaeth Math IV)
Barn arbenigol (tystiolaeth Math V)

Meini prawf STOX

Adolygiad systematig: Cynhwysfawr gydag o leiaf un RCT (S1)
Adolygiad systematig: Cynhwysfawr (S2)
Treialon: Treial wedi'i reoli ar hap (T1)
Treialon: Treial wedi'i reoli ond nid ar hap (T2)
Treialon: Treial cyn ac ar ôl ymyrraeth (T3)
Arsylwadol: Cohort (O1)
Arsylwadol: Astudiaeth rheoli achos (O2)
Arsylwadol: Astudiaeth trawstoriadol/hydredol yn cynnwys data ystadegol (O3)
Arsylwadol: Astudiaeth yn defnyddio dulliau ansoddol yn unig (O4)
Arsylwadol: Astudiaeth achos (O5)
Mynegiadau barn: Cytundeb ffurfiol neu farn broffesiynol arall (yn cynnwys adolygiad pan nad oes arwydd o ddull systematig a dulliau yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth)

Lleoliad gwledig ☐ (neu dermau tebyg e.e. anghysbell ac ati) gwledig-trefol ☐ (neu dermau tebyg e.e. anghysbell ac ati)

Poblogaeth darged (os yw'n briodol)

.....

.....

E: Disgrifiad byr o'r ymyrraeth (yn achos astudiaethau gwerthuso)

Rhowch ddisgrifiad byr o'r ymyrraeth yn cynnwys amcanion, grwpiau targed a dulliau.

.....

.....

F: Canfyddiadau'r astudiaeth

Beth yw canlyniadau/negeseuon allweddol yr astudiaeth?
Peidiwch â disgrifio'r canlyniadau'n fanwl.

.....

.....

A yw'r papur yn cynnwys unrhyw drafodaeth ar ddefnyddio canfyddiadau'r astudiaeth, anghenion ymchwil pellach, neu oblygiadau polisi, yn enwedig mewn perthynas â mynediad i iechyd gwledig?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, beth ydyn nhw?

.....

.....

G. Ansawdd y papur

(Rhowch gylch am eich atebion)

A ddisgrifiwyd y nodau a'r amcanion yn glir?	Do / Naddo
Ydy'r awduron yn cyfeirio at lenyddiaeth briodol?	Ydynt / Nac ydynt
A ddisgrifiwyd y dulliau astudio'n glir?	Do / Naddo
A nodwyd y gyfradd ymateb?	Do / Naddo / Amherthnasol
A drafodwyd unrhyw duedd bosib?	Do / Naddo
A ddisgrifiwyd dulliau ystadegol yn glir?	Do / Naddo / Amherthnasol
Os yw'r astudiaeth yn ansoddol, a ddisgrifiwyd y dull dadansoddi'n glir?	Do / Naddo / Amherthnasol
A yw'r dulliau astudio'n briodol i'r amcanion?	Ydynt / Nac ydynt
A roddwyd cyfiawnhad dros y sampl a ddewiswyd?	Do / Naddo / Amherthnasol
A yw'r dulliau ystadegol yn briodol?	Ydynt / Nac ydynt / Amherthnasol
A yw'r canlyniadau'n cefnogi'r casgliadau?	Ydynt / Nac ydynt

Unrhyw sylwadau eraill ar ansawdd yr astudiaeth?

.....

.....

H: Asesiad yr adolygwr

Cryfder y dystiolaeth (rhowch gylch am rif)

1	2	3	4
argyhoeddiadol iawn	argyhoeddiadol	ddim yn	ddim yn argyhoeddiadol o gwbl

I: Sylwadau'r adolygwr